

PWYLLGOR	<b>PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU</b>
DYDDIAD	<b>8 CHWFROR 2018</b>
TEITL	<b>CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL</b>
PWRPAS YR ADRODDIAD	<b>AMLINELLU GWAITH ARCHWILIO MEWNOL AM Y CYFNOD HYD AT 26 IONAWR 2018</b>
AWDUR	<b>LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO</b>
GWEITHREDIAD	<b>DERBYN YR ADRODDIAD, SYLWEBU AR Y CYNNWYS A CHEFNOGI'R GWEITHREDIADAU SYDD EISOES WEDI'U CYTUNO GYDA'R GWASANAETHAU PERTHNASOL</b>

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad yma yn crynhoi gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 18 Tachwedd 2017 hyd at 26 Ionawr 2018.

**2. GWAITH A GWBLHAWYD YN Y CYFNOD**

2.1 Cwblhawyd y gwaith canlynol yn y cyfnod hyd at 26 Ionawr 2018:

<b>Disgrifiad</b>	<b>Nifer</b>
Adroddiadau am Archwiliadau o'r Cynllun Gweithredol	9
Archwiliadau Grant	1

Ceir manylion pellach ar y gwaith yma yng nghorff yr adroddiad hwn ac yn yr atodiadau amgaaedig.

## 2.2 Adroddiadau Archwilio

2.2.1 Mae'r tabl canlynol yn gosod allan yr archwiliadau o'r cynllun a gwblhawyd yn y cyfnod hyd at 26 Ionawr 2018, gan ddangos y categori barn perthnasol a chyfeiriad i'r atodiad perthnasol.

TEITL	ADRAN	GWASANAETH	BARN	ATODIAD
Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion – Ymwybyddiaeth Gweithwyr Maes o'r Polisi	Corfforaethol	-	C	Atodiad 1
Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion - Sefydliadau	Corfforaethol	-	B	Atodiad 2
Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau	Corfforaethol	-	B	Atodiad 3
Tocynnau Mantais Bws	Amgylchedd	Trafnidiaeth a Gofal Stryd	B	Atodiad 4
Trefniadau Adennill Dyledion	Cyllid	Ariannol	B	Atodiad 5
Grant Teuluoedd yn Gyntaf	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Plant a Theuluoedd	A	Atodiad 6
Grant Cynnig Gofal Plant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Plant a Theuluoedd	A	Atodiad 7
Depos	Priffyrdd a Bwrdeistrefol	Gwaith Priffyrdd	B	Atodiad 8
Rhestr Aros Tai	Oedolion, Iechyd a Llesiant	Tai	B	Atodiad 9

2.2.2 Mae categorïau barn yr adroddiadau yn datgan y canlynol:

Barn "A" Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.

Barn "B" Mae rheolaethau mewn lle, a gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb ariannol gan fod agweddau lle gellir tynhau ar rai trefniadau.

Barn "C" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle, ond ni ddarganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth.

Barn "CH" Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb ariannol gan nad oes rheolaethau derbyniol yn bodoli, a darganfuwyd colledion / twyll yn deillio o'r gwendidau rheolaeth hyn.

### **2.3 Archwiliad Grant Ôl-16**

2.3.1 Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu 'tystiolaeth o wariant priodol' o'r dyraniadau ar gyfer chweched dosbarth ac addysg barhaus i oedolion. Mae canllawiau 'Archwilio Awdurdodau Lleol ar gyfer Ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru' yn nodi y bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu'r wybodaeth ganlynol yn flynyddol i Lywodraeth Cymru:

- a) rhestr o bob adroddiad archwilio mewnol sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn honno sy'n cynnwys unrhyw ddysgu mewn ysgol neu yn y gymuned lle y mae grantiau Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y costau yn gyfan-gwbl neu'n rhannol;
- b) ar gyfer yr adroddiadau hynny, mae angen y farn archwilio gyffredinol yn ogystal ag unrhyw wendidau sylweddol a nodir yn ogystal â'r cynllun gweithredu / sylwadau rheoli i fynd i'r afael â'r gwendidau hynny;
- c) copi o adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol (neu gyfwerth);
- d) copi o lythyr rheoli yr archwiliad allanol sy'n gysylltiedig â'r flwyddyn ariannol benodol wedi iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor. (Bydd hyn yn y dystysgrif archwilio gan eich cyfrifon 2016-17 archwiliedig blynyddol).

2.3.2 Cyflwynwyd y wybodaeth uchod ynghyd â'r rhestrau gwirio cysylltiedig at Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn amser sef 31 Ionawr 2018.

### **3. GWAITH DILYNIANT**

3.1 Mae trefniadau newydd wedi eu sefydlu ar gyfer archwiliadau dilyniant. Yn 2016/17, fe ddaethpwyd i gytundeb ar 223 o gamau gweithredu i'w cyflawni erbyn 31 Mawrth 2018. Erbyn hyn, yn hytrach na chynnal dilyniant at adroddiadau barn "C" yn unig, bydd pob cam a gytunwyd yn derbyn sylw trwy ofyn i'r uned/gwasanaeth /sefydliad anfon tystiolaeth i brofi gweithrediad. Ar 26 Ionawr 2018, roedd gweithrediad derbyniol ar **65.91%** o'r camau cytunedig, h.y. 147 allan o 223. Hyd yma, dim ond ar gyfer 204 o weithrediadau cytunedig y gofynnwyd am ddiweddariad ac mae gweithrediad derbyniol ar 147 ohonynt, sef canran o **72.05%**.

#### **4. GWAITH AR Y GWEILL**

4.1 Roedd y gwaith canlynol ar y gweill ar 27 Ionawr 2018.

- System Integredig Dysgu a Datblygu (*Corfforaethol*)
- Derbyn Tystlythyrau, Profion Hunaniaeth a Thystiolaeth o Gymwysterau (*Corfforaethol*)
- Y Fenter Twyll Genedlaethol (*Corfforaethol*)
- Incwm Cinio Ysgol (*Addysg*)
- Ysgolion – Cyffredinol (*Addysg*)
- Hylendid Bwyd (*Amgylchedd*)
- Manddaliadau (*Amgylchedd*)
- Cynlluniau Adeiladu Ysgolion – Ysgol Glancegin (*Amgylchedd*)
- Incwm Meysydd Parcio (*Amgylchedd*)
- Budd-daliadau – Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol (*Cyllid*)
- Doc Fictoria (*Economi a Chymuned*)
- Y Frondeg (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Trefniadau ar gyfer Plant yn Gadael Gofal (*Oedolion, Iechyd a Llesiant*)
- Targedau Ailgylchu (*Priffyrdd a Bwrdeistrefol*)

#### **5. ARGYMHELLIAD**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 18 Tachwedd 2017 hyd at 26 Ionawr 2018, sylwebu ar y cynnwys yn ôl dymuniad yr aelodau, a chefnogi'r gweithrediadau cytunedig sydd eisoes wedi'u cyflwyno i reolwyr y gwasanaethau perthnasol.

**TREFNIADAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION –  
YMWYBYDDIAETH GWEITHWYR MAES O'R POLISI  
CORFFORAETHOL**

**1. Cefndir**

1.1 Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu plant ac oedolion. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor, ac felly disgwylir i bob Cyngorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth ar gytundeb i weithredu'n briodol os oes amheuaeth neu os mynegir pryder fod cam-drin yn digwydd.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd cynnal adolygiad o ymwybyddiaeth gweithwyr maes y Cyngor o 'Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus'. Ymwelwyd â sampl o weithwyr maes ac ymholwyd hwy ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o bolisi'r Cyngor a'i gynnwys. Yn ogystal, holwyd ynglŷn â'r mathau o gamdriniaeth y buasant yn adrodd arno ac i bwy.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Ymwelwyd â nifer o sefydliadau er mwyn trafod wyneb i wyneb gyda gweithwyr maes, gan holi ynglŷn â'u hymwybyddiaeth o bolisi'r Cyngor a'i gynnwys. Yn ogystal, holwyd ynglŷn â'r mathau o gamdriniaeth y buasant yn adrodd arno ac i bwy. Llwyddwyd i gasglu 63 o ymatebion gan weithwyr heb gyfeiriad e-bost Cyngor Gwynedd drwy ymweld â chyfarfodydd bro Gofalwyr Cymunedol, yn ogystal â Chartrefi Preswyl, Canolfannau Hamdden a Depos.

3.2 Dengys canlyniadau'r trafodaethau bod 76% o staff, allan o'r sampl o 63, yn ymwybodol bod gan y Cyngor Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Roedd y canlyniad yma yn ddisgwyliedig gan nad yw gweithwyr maes yn derbyn gymaint o gyswllt o gymharu â gweithwyr sydd â chyfeiriad e-bost Gwynedd.

3.3 Eglurwyd i'r gweithwyr mai polisi Cyngor Gwynedd yw'r Polisi Diogelu Plant ac Oedolion Bregus a'i fod yn wahanol i bolisiâu allanol megis Polisi POVA (Protection of Vulnerable Adults). Er bod sawl gweithiwr wedi mynegi eu bod yn ymwybodol o'r polisi, nid oedd y trafodaethau cafwyd yn awgrymu bod hyn yn wir ym mhob achos. Yn ogystal, wrth drafod agweddau o'r Polisi, megis ei fod yn berthnasol i fywyd tu allan y gwaith, rôl y Rheolwyr Dynodedig Adrannol ayyb, darganfuwyd fod rhai oedd wedi mynegi eu bod yn ymwybodol o'r cynnwys efallai ddim mor gyfarwydd ohono wedi'r cwbl.

3.4 Mynegodd sawl un ohonynt eu bod wedi cwblhau modiwl diogelu ar e-ddysgu ac eraill yn nodi eu bod angen ei gwblhau cyn diwedd y flwyddyn ond eu bod yn cael trafferth cael mynediad i'r system.

- 3.5 Trafodwyd y mathau gwahanol o gamdriniaeth a'u harwyddion fel y nodir yn y Polisi, ac roedd y rhan helaeth o weithwyr yn ymwybodol ohonynt. Serch hyn, nid yw'n golygu eu bod yn ymwybodol o'r polisi a gweddill ei gynnwys. Trafodwyd petai'r gweithwyr yn poeni bod unigolion, boed yn y gweithle neu ddim, yn dioddef o gamdriniaeth yna holwyd a fuasent, ac i bwy, y byddent yn cyfeirio eu pryderon.
- 3.6 Roedd yr ymatebion yn amrywio, ond nododd mwyafrif o'r gweithiwr mai at eu Rheolwr Llinell buasent yn mynd yn gyntaf i fynegi eu pryderon ac i gael cyngor, er bod yr Archwilwyr yn atgyfnerthu bod y polisi yn cwmpasu bywyd a phryderon tu allan i waith yn ogystal. Derbyniwyd ymatebion eraill megis, cysylltu gyda AGGCC, dilyn canllawiau POVA, Childline neu gysylltu yn syth gyda Gwasanaethau Cymdeithasol. Mynegodd un gweithiwr y buasai'n cael gair gyda'r teulu petai ganddo bryderon ynglŷn â chamdriniaeth ariannol. Yn ogystal, petai ganddo bryderon ynglŷn ag unigolyn yn cael ei gam drin yn emosiynol, buasai'n siarad gyda'r unigolyn sydd yn achosi'r pryder.
- 3.7 Yn dilyn pwysleisio bod y polisi yn cwmpasu bywyd tu allan i waith hefyd, mynegodd sawl un buasent yn un ai yn cysylltu gyda Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Heddlu. Ond wrth holi ymhellach ynglŷn â chamdriniaeth megis sefydliadol, ariannol ac emosiynol roedd rhai unigolion yn ansicr o beth oedd hyn yn ei olygu.
- 3.8 Eglurwyd er ei fod yn rhesymol i drafod pryderon gyda'u Rheolwyr Llinell, nid yw hyn yn 'cyfeirio' yn y gwir ystyr, ac nid yn ymarferol petai'r pryder am rywbeth tu allan y gwaith. Trafodwyd rôl y Rheolwr Diogelu Dynodedig Adrannol a bod modd siarad gyda'r Tîm Dyletswydd Gwasanaethau Plant, y Tîm Cynghori ac Asesu Gwasanaeth Oedolion, neu Tîm Tu Allan i Oriau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01766 772577 neu Uned Amddiffyn y Cyhoedd - yr Heddlu (rhif ffôn - 101), ac eglurwyd os ydynt yn meddwl bod y plentyn neu oedolyn mewn perygl yn syth, yna dylid ffonio'r Heddlu. Mynegodd sawl gweithiwr nad oeddynt yn ymwybodol o'r rhif ffôn cyfeirio.
- 3.9 Yn ystod y trafodaethau gyda'r gweithwyr, dosbarthwyd pamffledi diogelu'r Cyngor yn ogystal â'r cardiau gwybodaeth. Eglurwyd bod y pamffledi yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â mathau o gamdriniaeth, y rhif cyfeirio a beth fyddai'r camau nesaf. Mynegodd rhai o'r sampl nad oeddynt yn ymwybodol o'r llun llaw diogelu tra bod eraill yn dweud eu bod eisoes wedi derbyn pamffled a cherdyn gwybodaeth. Dosbarthwyd y rhain i'r gweithwyr ac i'r Rheolwyr Llinell/Goruchwylwyr yn ystod ein cyfarfodydd.

#### **4. Barn yr Archwiliad**

- (C) **Ni ellir datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau diogelu – ymwybyddiaeth gweithwyr maes o'r polisi gan na ellir dibynnu ar y rheolaethau mewn lle. Er bod y rhan helaeth o'r gweithwyr wedi mynegi eu bod yn ymwybodol o'r Polisi a'i gynnwys, roedd y trafodaethau a gynhaliwyd yn awgrymu nad oedd hyn yn fanwl gywir.**

- Parhau i godi ymwybyddiaeth o'r drefn diogelu, drwy gymryd i ystyriaeth canlyniadau'r arolwg yma.

## TREFNIADAU DIOGELU PLANT AC OEDOLION - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL

### 1. Cefndir

1.1 Un o brif flaenoriaethau Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle er mwyn diogelu plant ac oedolion. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor, ac felly disgwylir i bob Cynghorydd, pob aelod o staff, pob gwirfoddolwr a phob darparwr gwasanaeth ar gytundeb i weithredu'n briodol os oes amheuaeth neu os mynegir pryder fod cam-drin yn digwydd.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb i bawb sy'n cynrychioli neu'n gweithio ar ran y Cyngor. Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod sefydliadau tu allan i brif swyddfeydd y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i gyfeirio pryderon am ddiogelu plant ac oedolion yn briodol.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu cynnal trafodaethau gyda Rheolwyr ac arsylwi bod poster Diogelu yn cael ei arddangos mewn sefydliadau y tu allan i'r prif swyddfeydd. Roedd hyn yn cynnwys ysgolion, cartrefi preswyl, hostel anabledau dysgu a chanolfannau hamdden bu i Archwilio Mewnol ymweld â fel rhan o gynllun Archwilio Mewnol 2017-18.

### 3. Prif Ddarganfyddiadau

3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth o faterion diogelu, ond fod lle i wella ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Fel rhan o gynllun archwilio 2017-18 archwiliwyd sampl o ganolfannau hamdden y Cyngor, cartrefi preswyl, hosteli anabledau dysgu ac ysgolion. Ymysg y rhaglen archwilio, fe archwiliwyd trefniadau diogelu megis polisïau diogelu, hyfforddiant a dadleniadau DBS. Gweler isod grynodedb o'r darganfyddiadau.

#### 3.2 Canolfannau Hamdden

3.2.1 Roedd dwy ganolfan hamdden yn dilyn polisi corfforaethol y Cyngor gyda chanolfan arall yn dilyn 'Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008'. Nid oedd gan dair o'r canolfannau bosteri diogelu corfforaethol ond fe roddwyd poster iddynt ar ddiwrnod yr ymweliad neu drwy'r post.

3.2.2 Nid oedd pob aelod o staff y canolfannau hamdden wedi derbyn hyfforddiant diogelu. Roedd yn ymddangos mai staff sydd â mynediad at gyfrifiadur yn unig oedd wedi cwblhau modiwl hyfforddiant e-ddysgu Diogelu Plant ac Oedolion Bregus. Fodd bynnag, mynegwyd bod diogelu nawr yn cael ei gynnwys yn anwythiad pob aelod o staff gan gynnwys cymhorthyddion a staff achlysurol sydd heb fynediad at gyfrifiaduron.

3.2.3 Detholwyd sampl o swyddogion o'r pedair canolfan a gwelwyd bod gan bob un ohonynt ddadleniadau DBS cyfredol oni bai am un oedd yn y broses o'i adnewyddu. Yn ogystal, roedd dwy o'r canolfannau yn arddangos posteri yn hysbysu unigolion i beidio tynnu lluniau cyhoeddus, gan fod rhaid cwblhau ffurflen bwrpasol os am wneud hyn. Mae staff y canolfannau hamdden yn ymwybodol o'r trefniadau a'r camau i'w cymryd petai achos o'r fath yn digwydd.

### 3.3 Cartrefi Preswyl

3.3.1 Roedd posteri diogelu i'w weld ym mhob cartref a gwelwyd bod cardiau cyswllt wedi eu dyrannu i staff yn un ohonynt yn ogystal.

3.3.2 Nid oedd pob aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant diogelu oedolion bregus, a darganfuwyd achosion ble roedd angen ei adnewyddu. Roedd llawer o'r staff yma yn weithwyr nos neu'n achlysurol a nodwyd ei fod yn anodd trefnu hyfforddiant ar eu cyfer gan fod ganddynt swyddi eraill sydd yn cymryd blaenoriaeth.

3.3.3 Detholwyd sampl o swyddogion o dri chartref a gwelwyd bod gan bob un ohonynt ddadleniad DBS cyfredol.

### 3.4 Hosteli Anableddau Dysgu

3.4.1 Roedd poster diogelu yn weledol yn yr ystafell staff.

3.4.2 Roedd 3 aelod o staff wedi mynychu cwrs 'Diogelu - Hyfforddiant Sylfaenol Cymru gyfan ar Ymwybyddiaeth o Ddiogelu' yn Ionawr 2017. Eglurodd y Rheolwr bod hyfforddiant pellach ar ddiogelu wedi ei drefnu ar gyfer 2017.

3.4.3 Detholwyd sampl o swyddogion a gwelwyd bod gan bob un ohonynt ddadleniad DBS cyfredol.

### 3.5 Ysgolion

3.5.1 Yn ystod ymweliadau'r archwilwyr gwelwyd nad oedd gan ddwy o'r ysgolion bosteri diogelu corfforaethol ond fe roddwyd posteri iddynt ar ddiwrnod yr ymweliad neu drwy'r post. Roedd rhai o'r ysgolion yma wedi derbyn pamffledi neu'r cardiau gwybodaeth ond ddim y posteri.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau diogelu - sefydliadau gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae Cadeirydd y Panel Gweithredol Diogelu wedi ymrwymo i weithredu'r cam canlynol i liniaru'r risgiau:**

- Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau diogelu corfforaethol.



## RHEOLI GWYBODAETH - SEFYDLIADAU CORFFORAETHOL

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae'r Cyngor yn gwneud cryn ddefnydd o wybodaeth bersonol yn ei holl feysydd gwaith felly mae'n bwysig ei fod yn glynu'n gaeth at Ddeddf Diogelu Data 1998. Fel rhan o'i gyflogaeth gyda Chyngor Gwynedd mae disgwyl i bob aelod o staff fod yn gyfarwydd â'i gyfrifoldebau Diogelu Data ac ymdrin â gwybodaeth bersonol mewn modd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf.
- 1.2 Daw Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol i rym ar 25 Mai 2018 a fydd yn disodli Deddf Diogelu Data 1998. Mae'r newidiadau yn golygu y bydd angen esbonio yn llawer mwy eglur i'r cyhoedd a staff sut mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei ddefnyddio. Bydd gan unigolion llawer mwy o hawliau a bydd angen prawf pendant o ganiatâd i ddefnyddio gwybodaeth. Bydd rhaid adrodd yn genedlaethol os yw gwybodaeth yn mynd ar goll neu i'r lle anghywir a bydd angen gwybod pa wybodaeth bersonol sydd gennych, lle mae'n cael ei storio, efo pwy mae'n cael ei rannu a pha mor hir bydd yn cael ei gadw.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr Archwiliad oedd sicrhau fod gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael ei gadw yn ddiogel ac mewn cydymffurfiaeth ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data.
- 2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu arsylwi ar drefniadau diogelu gwybodaeth wrth ymweld â sefydliadau'r Cyngor sydd y tu allan i'r prif adeiladau.

### 3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Gwelwyd yn gyffredinol bod ymwybyddiaeth am faterion rheoli gwybodaeth ag egwyddorion y Ddeddf Diogelu Data, ond fod lle i wellau ar godi ymwybyddiaeth ymhellach. Fel rhan o gynllun archwilio 2017-18 archwiliwyd sampl o ganolfannau hamdden y Cyngor, hostel anabledau dysgu yn ogystal â sampl o ysgolion. Gweler isod grynodedb o'r darganfyddiadau.
- 3.2 Canolfannau Hamdden
  - 3.2.1 Ymddengys bod dealltwriaeth dda o ddiogelwch gwybodaeth yn y sampl o ganolfannau hamdden ymwelwyd â hwy yn ystod y flwyddyn 2017-18. Roedd tri o'r sampl yn ymwybodol o'r tîm Rheoli Gwybodaeth gydag un ohonynt wedi cysylltu â hwy i ymholi ynglŷn â chyfnodau cadw. Yn ogystal, bu i'r Swyddog Cefnogi Busnes a Systemau gadarnhau ei bod wedi dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â chyfnodau cadw dogfennau i bob canolfan hamdden.
  - 3.2.2 Mae elfennau o ddiogelwch gwybodaeth yn cael ei gynnwys yn anwythiad staff y Canolfannau e.e. delio gyda debydau uniongyrchol a pheidio rhannu rhifau ffôn dros y ffôn.

3.2.3 Roedd pob Canolfan yn defnyddio peirannau llarpio ar gyfer gwaredu gwybodaeth gyfrinachol gydag un ohonynt yn nodi eu bod hefyd yn ceisio gwneud llai o ddefnydd o'r sachau coch. Roeddynt yn ymwybodol o'r angen i gadw gwybodaeth gyfrinachol dan glo.

3.2.4 Holwyd ynglŷn ag oes cyfarwyddyd yn cael ei roi i staff i beidio â thrafod materion tu allan i waith a dywedodd dwy Ganolfan yn y sampl nad ydynt yn gwneud hyn. Yn ogystal, nododd un o'r Canolfannau nad ydynt yn cloi sgrin eu cyfrifiadur pan nad ydynt wrth eu desg.

### 3.3 Ysgolion

3.3.1 Roedd gan yr Ysgolion ddealltwriaeth dda o drefniadau rheoli gwybodaeth, ond nid oedd un ysgol allan o'r sampl a ddetholwyd yn ymwybodol o'r Tîm Rheoli Gwybodaeth. Nododd un o'r Penaethiaid ei bod wedi derbyn cyflwyniad i ddiogelu data mewn cyfarfod Penaethiaid. Serch hyn, nododd Pennaeth arall yn y sampl nad oedd yn ymwybodol bod tîm yn bodoli.

3.3.2 Roedd pob Ysgol ond un yn rhoi hyfforddiant i staff ar sut i drin gwybodaeth gan gynnwys meysydd megis trafod cyfrinachedd, peidio trafod materion tu allan i'r Ysgol, rhyddhau gwybodaeth a.y.b. Defnyddir peirannau llarpio neu fagiau gwaredu arbennig i waredu gwastraff cyfrinachol ym mhob ysgol ac roeddynt yn ymwybodol o gyfnodau cadw ar gyfer y wybodaeth dan eu gofal.

3.3.3 Cedwir gwybodaeth sensitif dan glo a petai angen iddynt drosglwyddo gwaith gartref i weithio arno mae ganddynt fynediad o adref neu maent yn defnyddio cof bach sydd wedi ei amgryptio.

3.3.4 Ni welwyd cyfrineiriau ar sgriniau yn yr ysgolion ond fe arsylwyd un Pennaeth yn gadael ei chyfrifiadur am gyfnod o oddeutu 10 munud heb gloi'r sgrin.

### 3.4 Hostel Anableddau Dysgu

3.4.1 Ymwelwyd â hostel anableddau dysgu ac yn ystod yr ymweliad gwelwyd fod y drws mynedfa a drws allanol o'r gegin a'r ystafell staff wedi eu dal ar agor ar fachyn. Trafodwyd y risg o gadw drysau yn agored gyda'r Rheolwr, nid yn unig i atal preswylwyr rhag ymadael, ond i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad.

## 4. Barn yr Archwiliad

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau rheoli gwybodaeth sefydliadau'r Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Rheolwr Gwybodaeth wedi ymrwymo i weithredu'r cam canlynol i liniaru'r risg a amlygwyd:**

- Parhau i godi ymwybyddiaeth gweithwyr y Cyngor o drefniadau rheoli gwybodaeth gan gynnwys Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a ddaw i rym 25 Mai 2018.

## TOCYNNAU MANTAIS BWS AMGYLCHEDD

### 1. Cefndir

- 1.1 Gall pobl dros 60 oed a phobl anabl sy'n byw yng Ngwynedd dderbyn tocyn mantais bws fydd yn eu galluogi i deithio yn ddi-dâl ar unrhyw fws lleol yng Nghymru. Mae gofyn i'r cwmnïau bysus, sef y 'Gweithredwyr Cyfranogol', hysbysu'r Cyngor yn fisol pa mor aml defnyddiwyd y tocynnau yma ar siwrneiau yng Ngwynedd, a byddent yn derbyn taliad ar eu cyfer. Mae'r taliadau yn seiliedig ar y nifer o siwrneiau wnaethpwyd o fewn y mis gan ddefnyddwyr tocynnau mantais, wedi ei luosi gyda chyfartaledd pris tocyn sengl oedolyn, a'i luosi eto gyda 'ffactor generadiad' sef canran a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn adhawlio'r arian a dalwyd i'r gweithredwyr cyfranogol, drwy geisiadau chwarterol i Lywodraeth Cymru.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod rheolaethau priodol ynghlwm â'r broses gweinyddu taliadau i weithredwyr cyfranogol ar sail defnydd tocynnau mantais. Roedd yr archwiliad hefyd yn sicrhau priodoldeb trefniadau tendro gwasanaethau trafniadaeth. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygu sampl o daliadau diweddar a'r wybodaeth dderbynnir gan y cwmnïau.

### 3. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Mae paragraff 36 o ganllawiau 'Cynllun teithio am ddim: Trefniadau ad-dalu cyffredin ar gyfer gweithredwyr cyfranogol', dyddiedig Ebrill 2017, yn mynegi: *"Ers i'r cynllun gael ei gyflwyno, codwyd pryderon ynglŷn â Gweithredwyr Cyfranogol unigol, yn gôr gofnodi nifer y siwrneiau gan deithwyr mewn ymgais i ddefnyddio'r cynllun i'w mantais. Nifer fechan o'r achosion hyn a welwyd ond maent wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf."* Nid yw Gwynedd wedi ei eithrio o'r ymgais gan rai darparwyr i or-gofnodi'r nifer o siwrneiau yn y gorffennol, felly mae'n hanfodol bod rheolaethau priodol mewn lle er mwyn lliniaru risgiau o or-gofnodi yn y dyfodol.
- 3.1.1 O'r sampl ddetholwyd, gwelwyd fod y taliadau a wnaethpwyd i'r gweithredwyr cyfranogol yn briodol a bod tystiolaeth ddigonol wedi eu derbyn i'w cefnogi.
- 3.1.2 Yn unol â'r canllawiau, mae'r fformiwla sy'n cyfrifo taliadau misol i'r gweithredwyr cyfranogol yn defnyddio cyfartaledd pris tocyn sengl oedolyn mis Medi 2009 wedi ei addasu yn flynyddol yn unol â chwyddiant. Mewn archwiliadau blaenorol, nid oedd Archwilio Mewnol wedi datgan sicrwydd ar gywirdeb yr holl ffigyrau a dderbyniwyd ym mis Medi 2009 gan y gweithredwyr cyfranogol. Fodd bynnag, Llywodraeth Cymru sy'n darparu y rhestr o brisiau'r gweithredwyr cyfranogol i Wynedd yn flynyddol, a gwelwyd fod y taliadau a wnaed yn unol â rhain.

- 3.1.3 Serch yr uchod, gwelwyd bod y Gwasanaeth wedi adnabod camgymeriad gyda pris un Gweithredwr Cyfranogol, ble roedd taliadau 2016-17 yn cael eu gwneud ar sail pris cyfartaledd o £2.1950 yn hytrach na'r pris cywir o £2.9015. Daeth hyn i'r amlwg pan hysbyswyd y Cyngor gan Lywodraeth Cymru o brisiau 2017-18, oedd yn seiliedig ar leihad o 0.9% ar ffigyrau 2016-17. Gwelwyd fod y Gwasanaeth eisoes wedi ad-dalu'r Gweithredwyr Cyfranogol ar y cyfradd cywir.
- 3.1.4 Mynegir y canllawiau ei bod yn ofynnol i weithredwyr cyfranogol gefnogi eu hawliadau gydag adroddiadau am bob siwrnai teithio am ddim a wneir, a dylai hyn fod yn seiliedig ar ddata ble disgwylir i ddim llai na 98% o'r teithiau gael eu cofnodi drwy gardiau clyfar, hynny yw, caiff hyd at 2% o deithiau eu cofnodi ble nad oes tocyn mantais bws wedi ei gyflwyno e.e. petai broblem gyda peiriant sganio tocynnau'r bws. Mae'r risg o weithredwyr cyfranogol yn gor-hawlio drwy ddefnydd amhriodol o brosesu tocynnau heb eu sganio eisoes wedi ei adnabod, ac mae Gwynedd yn cyfyngu taliadau i weithredwyr cyfranogol am docynnau o'r fath i 2%.
- 3.1.5 Fodd bynnag, mae un gweithredwr sy'n uchafu'r trothwy yn gwrthwynebu i'r penderfyniad i beidio talu dros y 2% iddynt, ac maent wedi bygwth codi tâl neu peidio derbyn teithwyr sydd gyda tocynnau mantais os na all y peiriannau eu sganio. Yn ychwanegol i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi peidio ad-dalu Gwynedd yn chwarter 1 a 2 yn 2017-18 am yr holl daliadau a wnaed i'r gweithredwr yma, er gwaethaf i'r Gwasanaeth gyfyngu'r taliadau iddynt. Cred Llywodraeth Cymru nad yw Gwynedd yn gwneud digon i sicrhau bod y cwmni ddim yn ceisio hawlio mwy nag y dylent, gan nodi: *"We have not received any clarification of the actions taken by the authority to address our concerns"*. Mae'r anghydfod yma yn parhau ar amser yr archwiliad, ac mae'r Gwasanaeth yn disgwyl am arweiniad pellach gan Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu *"We would suggest, the authority request that one of Bus Users Cymru's Bus Compliance Officers undertake surveys of the company's services, alongside or in addition to staff of Gwynedd Council."* Wrth ystyried gwerth y taliadau (cyfanswm o £90k hyd at chwarter 2), mae'n bwysig bod y Gwasanaeth yn cytuno ar weithrediad fuasai'n dderbyniol gan Lywodraeth Cymru er mwyn iddynt ryddhau'r elfen yma o'r grant i Wynedd.

#### **4. Barn yr Archwiliad**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Tocynnau Mantais Bws gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Derbyn arweiniad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithredwr cyfranogol sy'n uchafu'r trothwy o 2% o deithiau proseswyd gyda llaw, a gweithredu yn briodol er mwyn sicrhau ad-daliad grant am y costau a dalwyd hyd yn hyn.

## TREFNIADAU ADENNILL DYLEDION CYLLID

### 1. Cefndir

- 1.1 Mae Canllawiau Adennill Dyledion Amrywiol (Hydref 2014) yn nodi'r broses a ddylid ei dilyn wrth adennill dyledion. Mae'r Gwasanaeth perthnasol yn codi anfoneb ar y dyledwyr a bydd yr Uned Incwm yn cychwyn ar y broses o adennill. Os nad yw prosesau'r Uned Incwm yn dwyn ffrwyth, caiff dyledion eu trosglwyddo, boed at asiantaethau casglu allanol neu at Wasanaeth Cyfreithiol y Cyngor.

### 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol ac effeithiol mewn lle ar gyfer adennill dyledion. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o ddyledion hanesyddol sydd heb eu talu, gan wirio bod y camau priodol wedi eu cymryd i geisio adennill y ddyled drwy dderbyn taliad.

### 2. Prif Ddarganfyddiadau

- 3.1 Detholwyd sampl o ddyledion hanesyddol eu natur ar draws Gwasanaethau'r Cyngor. Gwiriwyd statws pob anfoneb a nodiadau'r Uned Incwm ar y cyfriflyfr er mwyn darganfod pa gamau cymerwyd i geisio adfer y dyledion.
- 3.2 Darganfuwyd bod gweithrediad wedi bod ar bob dyled, ond ar adegau mae cyfnod maith rhwng cofnodion o weithrediadau'r Uned Incwm. Ymddengys bod hyn yn deillio o ddau ffactor yn bennaf, sef adnoddau a chyfathrebu. Gan fod yr Uned Incwm yn blaenoriaethu dyledion, yna yn anochel y bydd rhai anfonebau yn cael eu rhoi o'r neilltu am y tro. Mae modd rhoi 'fflag' ar ddyledion, ond nid oes modd rheoli'r fflag er mwyn atgoffa swyddogion bod angen ailymweld ar ôl cyfnod amser penodol. Yn ogystal, mae'r Uned Incwm yn aml yn cyd-weithio gyda'r Gwasanaethau er mwyn adennill dyledion, ond gwelwyd oedi rhwng gweithrediadau oherwydd nad oedd ymholiadau gan yr Uned Incwm yn cael eu hateb neu'u cofnodi, sy'n awgrymu bod diffyg perchnogaeth ar wahanol weithrediadau yn y drefn adennill cyn eu cyfeirio at Cyfreithiol.
- 3.3 Detholwyd sampl o ddeg anfoneb dyledus gyda statws sy'n dynodi eu bod wedi eu cyfeirio at y Gwasanaeth Cyfreithiol. Roedd cofnodion yr Uned Incwm yn awgrymu nad oedd gweithrediad wedi bod ar nifer o'r dyledion ers iddynt gael eu cyfeirio, rhai mor bell yn ôl â 2013. Fodd bynnag, darganfuwyd bod gweithrediad wedi bod ar y rhan helaeth ohonynt, ond ymddengys nad oedd yr Uned Incwm yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf ym mhob achos oherwydd bod Cyfreithiol wedi cyd-weithio gyda'r Gwasanaeth perthnasol. Roedd rhai o'r achosion wedi eu cau gan Cyfreithiol, ond nid oedd dim i awgrymu bod yr Uned Incwm yn ymwybodol o hyn.

- 3.4 Gwelwyd fod dau achos ble roedd dyledion hanesyddol wedi eu cyfeirio at Cyfreithiol, ond nad oedd swyddogion presennol y Gwasanaeth yn ymwybodol ohonynt. Roedd yr anfonebau yma yn deillio o gyfnod cyn i Cyfreithiol newid eu trefniadau i broses mwy awtomataidd sy'n golygu cychwyn y broses gyfreithiol yn syth wedi i gyfarwyddyd gyrraedd, a hynny er mwyn cyfarch pryderon hanesyddol Gwasanaethau. Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Uned Incwm yn gytûn bod y trefniadau newydd yn welliant sylweddol. Gan fod sampl yr archwiliad yn cwmpasu dyledion hanesyddol eu natur, ehangwyd y sampl i gynnwys dyled dan y drefn newydd yn ogystal. Gwelwyd bod llythyr wedi ei anfon at ddyledwr yn fuan wedi i'r ddyled gael ei chyfeirio at y Gwasanaeth Gyfreithiol yn amlinellu bwriad y Cyngor, a bod cyfathrebu rhwng yr Uned Incwm a Chyfreithiol 14 a 28 diwrnod wedi i'r llythyr gael ei anfon er mwyn cadarnhau nad oes taliad neu newid yn statws y ddyled. Gwelwyd fod trefniant talu wedi ei wneud gyda'r dyledwr.
- 3.5 Mae archwiliadau y gorffennol wedi adnabod diffyg cyfathrebu rhwng yr Uned Incwm, Cyfreithiol a'r Gwasanaethau, ond erbyn hyn gwelwyd fod y trefniadau wedi tynhau.

#### **Barn yr Archwiliad**

- (B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau adennill dyledion y Cyngor gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Gwasanaethau perthnasol eisoes wedi cymryd camau i gryfhau trefniadau ac wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**
- Sicrhau bod gan y Clerc Cyfreithiol yr hawliau mynediad cywir a'r dealltwriaeth angenrheidiol o'r system i fedru cofnodi ar y 'scratchpad' o fewn y cyfrifyfr ariannol.
  - Y Gwasanaeth Cyfreithiol i gofnodi diweddariadau i statws unrhyw ddyled ar y 'scratchpad' o fewn y cyfrifyfr ariannol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf mewn un lle ac ar gael i bob swyddog perthnasol.

## **GRANT TEULUOEDD YN GYNTAF PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

### **1. Cefndir**

- 1.1 Roedd Canllawiau Llywodraeth Cymru ar 'Teuluoedd yn Gyntaf' yn nodi bod y rhaglen yma yn un arloesol sy'n hybu ardaloedd awdurdodau lleol i ddatblygu cefnogaeth a systemau amlasiantaethol effeithiol i deuluoedd, yn enwedig y rhieni sy'n byw mewn tloedi, gyda phwyslais clir ar atal ac ymyriadau cynnar.
- 1.2 Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymateb allweddol i Strategaeth Tloedi Plant Llywodraeth Cymru. Mae tri amcan i'r strategaeth, ac mae Teuluoedd yn Gyntaf yn sbardun pwysig i gyflawni'r amcanion hyn:
- a) Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw mewn cartref di-waith:
  - b) Gwella sgiliau'r rhieni/gofalwyr a'r bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi incwm isel er mwyn iddynt allu cael gwaith sy'n talu yn dda; a
  - c) Lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli ym maes iechyd, addysg a chanlyniadau economaidd i blant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r rhai tlotaf – gyda ffocws ar gefnogi teuluoedd er mwyn cyflawni canlyniadau gwell i blant.

### **2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

- 2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr arian grant refeniw Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei weinyddu yn briodol ac yn unol â thelerau'r grant. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r rheolaethau mewnol ar gyfer gweinyddu'r grant yma, ac roedd hyn yn cynnwys profi trafodion ariannol.

### **3. Prif Ddarganfyddiadau**

- 3.1 Roedd y cais gwreiddiol wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn 2012 ar sail y ddogfen 'Parenting & Family Support in Gwynedd, Commissioning Strategy 2012-2017' sydd wedi bod yn sail i'r cynllun drwy gydol y cyfnod.
- 3.2 Mae'r ddarpariaeth a ddisgwylir wedi ei fanylu yn atodlen 1 'Y Dibenion' yn y llythyr Dyfarnu cyllid mewn perthynas â grant Teuluoedd yn Gyntaf, ac mae cynllun y Cyngor wedi ei gymeradwyo yn seiliedig ar y manylder yma ac mae'r gwariant yn cydymffurfio yn ogystal.
- 3.3 Y Swyddog Monitro a Gwerthuso sydd yn gyfrifol am fonitro ac yn derbyn adroddiad chwarterol gan y darparwyr. Mae unrhyw ddiffyg yn cael eu hamlygu yn ystod y broses hon ac o ganlyniad disgwylir gweithrediad i'w lliniaru.
- 3.4 Mae cynnydd ar y prosiect yn cael ei adrodd yn chwarterol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â gwybodaeth ariannol. Yn ychwanegol mae adroddiad blynyddol yn cael ei chyflwyno yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad yma yn canolbwyntio ar y strategaeth/allbwn disgwylid wedi ei nodi ac felly yn hawdd i'w fonitro (amcanion CAMPUS (SMART)).

- 3.5 Mae un gofrestr risg yn bodoli ond mae hwn yn mynd yn ôl i gychwyn y prosiect lle mae'r prif risgiau sydd wedi eu hadnabod yn ymwneud a'r broses tendro. Nid oes tystiolaeth bod cofrestr risg cyfredol yn bodoli ac felly yn awgrymu nad oes gwaith monitro ffurfiol yn mynd rhagddo i sicrhau bod risgiau'r prosiect yn cael eu lliniaru. Cytunir ei fod yn bwysig sicrhau bod cofrestr o'r fath yn cael ei greu i ddiweddu y prosiect presennol hyd at Mawrth 2018 ac i'r prosiect/grant newydd sydd i ddilyn.
- 3.6 Mae taliadau yn cael eu talu i 3ydd parti yn unol â'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Mae pwrpas y grant wedi ei nodi yn glir yn y cytundebau ac mae'n ofynnol i'r buddiolwyr adrodd yn chwarterol ar y cynnydd sydd yn cael ei wneud. Mae'r Swyddog Monitro a Gwerthuso yn sicrhau mai dim ond gwariant cymwys sydd yn cael ei hawlio.
- 3.7 Mae'r buddiolwyr yn cael eu talu yn erbyn anfonebau yn chwarterol, a'r arian yma yn cael ei adhawlio gan Lywodraeth Cymru trwy gais am arian. Mae'r anfonebau yn cael eu gwirio am gywirdeb yn ogystal.
- 3.8 Mae cyllideb wedi ei bennu ar gyfer y grant a gwelwyd tystiolaeth bod hwn wedi ei broffilio yn unol â thelerau'r grant.
- 3.9 Yn wahanol i'r blynyddoedd blaenorol, roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am dri cais am arian yn unig yn ystod 2016/17. Roedd yr hawliad cyntaf i'w gyflwyno erbyn 15/07/16 (01/04/16 – 30/06/16), yr ail erbyn 20/01/17 (01/07/16 – 31/03/17 yn cynnwys amcanestyniad o wariant cyllid) a'r datganiad terfynol erbyn 30/04/17 (gwybodaeth ariannol flynyddol hyd at 31/03/17). Gwelwyd tystiolaeth yn cadarnhau bod y ceisiadau wedi eu hawlio o fewn yr amseroedd e.e. cais terfynol dyddiedig 28/04/17. Gwelir bod yr hawliad cyntaf wedi ei arwyddo gan y Rheolwr Cyflawni Plant a Phobl Ifanc a hawl 2 a 3 gan y Rheolwr Cyllid.

#### **4. Barn yr Archwiliad**

**(A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth y grant Teuluoedd yn Gyntaf gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn. Mae'r Swyddog Monitro a Gwerthuso wedi ymrwymo i weithredu'r cam canlynol i liniaru'r un risg a amlygwyd i'r dyfodol:**

- Sicrhau bod cofrestr risg i liniaru risgiau sydd yn gysylltiedig â diweddu'r prosiect presennol ym Mawrth 2018 ac i'r arian/prosiect newydd sydd i ddilyn.



**GRANT CYNNIG GOFAL PLANT YN GYNNAR  
PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

**1. Cefndir**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnig 30 awr yr wythnos o ofal plant ac addysg gynnar a ariennir gan y Llywodraeth am 48 wythnos y flwyddyn, i rieni sy'n gweithio a gwarcheidwaid cofrestredig sydd â phlant tair a phedair oed yng Nghymru, erbyn diwedd tymor presennol y Cynulliad hwn. Diben y Cyllid yw galluogi'r Awdurdod i weithredu'r cynnig gofal plant yn gynnar (y cynnig) mewn ardaloedd penodol ac ar gyfer niferoedd o blant y cytunwyd arnynt yn yr ardal o fis Medi 2017.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr arian grant refeniw Cynnig Gofal Plant yn Gynnar yn cael ei weinyddu'n briodol ac yn unol â thelerau'r grant.

2.2 Roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r rheolaethau mewnol ar gyfer gweinyddu'r grant yma, ac roedd hyn yn cynnwys profi rhai o drafodion ariannol 2017/18.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi adnabod cynnig gwell ar gyfer gofal plant fel blaenoriaeth, ac wedi enwebu Gwynedd a Môn i fod yn weithredwr cynnar ar y cyd, gyda'r bwriad o gydweithio gyda'r Llywodraeth o 17-18 ymlaen gan gynorthwyo i brofi'r cynllun cyn ei fod yn mynd yn genedlaethol yn 2020.

3.2 Mae'r ddarpariaeth a ddisgwyllir wedi ei fanylu yn atodlen 1 'Y Dibenion' yn y llythyr Dyfarnu cyllid mewn perthynas â grant Cynnig Gofal Plant, ac mae'r Cyngor yn gweithredu yn seiliedig ar y manylder yma ac mae'r gwariant yn cydymffurfio yn ogystal.

3.3 Y Swyddog Strategol Gofal Plant Gwynedd a Môn sydd yn gyfrifol am weinyddu'r grant. O ganlyniad mae'n cymryd cyfrifoldeb am gwblhau ffurflen fonitro yn fisol - sy'n cynnwys nifer ac oriau'r ddarpariaeth gofal plant a hefyd ffurflen hawlio sy'n dangos y gwariant yn erbyn yr hawliad. Mae hefyd yn gyfrifol am gwblhau adroddiadau bob tymor ar gyfer Medi i Ragfyr 2017, ac Ionawr i Ebrill 2018 i'w cyflwyno erbyn 31 Ionawr 2018 a 30 Ebrill 2018. Derbyniwyd tystiolaeth bod y ffurflenni monitro misol yn cael eu cwblhau, ac mae'r rhain yn ei gwneud yn hawdd i bennu a yw'n debygol y bydd niferoedd yn cynyddu.

3.4 Yn ychwanegol i adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru, mae adroddiadau yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Strategol Gofal Plant Gwynedd a Môn yn ogystal.

- 3.5 Mae taliadau yn cael eu talu i 3ydd parti yn unol â'r cytundebau gyda'r Cyngor. Gwiriwyd sampl o ddarparwyr am gywirdeb y manylion BACS a gwelir bod y rhain yn gywir. Yn ogystal gwiriwyd sampl o rieni er mwyn sicrhau fod y profion cymhwyso yn cael eu cynnal yn briodol a'u bod yn cwrdd â'r meini prawf. Gwelwyd bod y rhain yn gywir yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth a bod gweithdrefnau priodol yn eu lle i sicrhau bod tystiolaeth gywir yn cael ei dderbyn cyn gwobrwyo arian y grant. Mae pwrpas y grant wedi ei nodi yn glir yn y cytundebau ac mae'r Swyddog Gofal Plant Gwynedd a Môn a'r staff gweinyddol yn sicrhau cywirdeb y costau sydd yn cael eu hawlio.
- 3.6 Mae darparwyr yn cael eu talu yn erbyn anfonebau yn fisol a'r arian yma yn cael ei adhawlio gan Lywodraeth Cymru trwy gais.
- 3.7 Mae cyllideb wedi ei bennu ar gyfer y grant a gwelwyd tystiolaeth bod hwn wedi ei broffilio yn unol â thelerau'r grant.
- 3.8 Mae ffurflen gais pwrpasol yn cael ei ddefnyddio i hawlio arian sydd yn seiliedig ar dempled Llywodraeth Cymru. Mae rhaid hawlio'r cyllid yn fisol ar sail ôl-daliadau sy'n seiliedig ar y gwariant a dynnir ac a delir ar gyflawni'r Dibenion. Gwelwyd tystiolaeth bod y cais rhwng 4 Medi 2017 a 1 Hydref 2017 wedi ei hawlio o fewn yr amser penodedig sef 6 Hydref 2017 a bod y cais wedi ei arwyddo gan swyddog awdurdodedig, sef y Swyddog Gwella Ansawdd Blynyddoedd Cynnar.
- 3.9 Hon yw'r flwyddyn gyntaf i'r grant penodol hwn ac felly nid oes cais terfynol wedi ei gyflwyno hyd yma. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r cais terfynol hyd at 31 Mawrth 2018 gael ei hawlio erbyn 6 Ebrill 2018.

#### **4. Barn yr Archwiliad**

- (A) Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb yng ngweinyddiaeth y Grant Cynnig Gofal Plant gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol sydd mewn lle, a'u bod wedi eu dilyn.**

**DEPOS**  
**PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

**1. Cefndir**

1.1 Yn Rhagfyr 2016, yn dilyn achos llys, derbyniodd y Cyngor ddirwyon o £70,000 a £3,400 am dorri Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 a'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, yn ôl eu trefn. Deilliai'r achos yma o ymweliad i ddepo Tywyn gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar Chwefror 24<sup>ain</sup> 2016. Mae'r Cyngor yn gweithredu o dan eithriad '*Waste exemption: NWF3 temporary storage of waste at a place controlled by the producer*' felly nid oeddent angen trwydded, ond mae amodau'r eithriad yn mynegi na ddylai mwy na 50m<sup>3</sup> o wastraff gael ei storio ar safle ar unrhyw adeg; ni ddylai gwastraff gael ei gadw ar safle am fwy na 3 mis ac ni ddylai gwastraff gyda chodau EWC gwahanol gael eu storio'n gymysg. Roedd y gwastraff yn nepo Tywyn yn torri'r 3 amod yma. Cafodd y gwastraff ei gludo ond defnyddiwyd un cod EWC ar y nodyn trosglwyddo er bod 4 gwastraff gwahanol yn cael ei gludo yn ôl diffiniadau EWC.

**2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau priodol wedi eu sefydlu ar gyfer rheoli Depos Priffyrdd er mwyn lliniaru risgiau yn briodol a sicrhau cydymffurfiaeth â rheolaethau'r Cyngor, y Llywodraeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

**3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Detholwyd 5 depo Priffyrdd ar gyfer yr archwiliad yma; Cibyn, Tywyn, Rhiwbryfdir, Ffordd y Bala ac Afonwen. Cynhaliwyd archwiliadau gweledol o bob depo yn ogystal â gwiriad o'r gwaith papur perthnasol.

3.2 Gwelwyd bod sgipliau addas ar gyfer gwastraff concriid a bitwmen ym mhob depo ymwelwyd â hwy. Nid oes llawer o bitwmen gyda '*coal tar*' ar ôl yng Ngwynedd felly nid oedd dim yn cael ei storio yn unrhyw ddepo ac yn annhebygol o gael ei storio yn y dyfodol. Buasai prawf '*core*' yn cael ei wneud pe bai amheuaeth bod unrhyw fitwmen sydd angen ei godi yn cynnwys '*coal tar*'.

3.3 Gwelwyd bod '*road planings*' wedi eu storio mewn 2 o'r 5 depo fel gwastraff ar gyfer ei ail-ddefnyddio. Roedd cymhlethdodau yn codi yma gyda diffiniad 'gwastraff'. Mewn rhai achosion mae '*road planings*' wedi eu prynu fel deunyddiau yn fuan iawn ar ôl i'r Depo dalu i waredu '*road planings*' i osgoi eu storio am fwy na 3 mis yn unol â thelerau'r eithriad NWF3. Buasai rhai o'r Rheolwyr Safle yn awyddus i gael mwy o wybodaeth am beth sy'n achosi deunydd i gael ei ystyried yn wastraff ac os oes modd newid ei statws yn ôl i ddeunydd. Er mwyn gwneud hyn mae angen trwydded berthnasol ac/neu offer penodol er mwyn sgrinio'r gwastraff ar gyfer ei ddsbarthu fel deunydd. Buasai gwneud cais am drwyddedau S2 ar gyfer safleoedd penodol yn caniatáu storio hyd at 500 tunnell o ddeunydd megis '*road planings*' am gyfnod o hyd at 12 mis ond mae diffyg lleoliadau addas yn rwystr.

- 3.4 Dangosodd yr archwiliadau gweledol bod llai na 50m<sup>3</sup> o wastraff yn cael ei storio ym mhob depo ymwelwyd â hwy. Roedd gwastraff yn cael ei gadw yn daclus a heb eu cymysgu. Yn nepo Ffordd y Bala (Dolgellau), eglurodd y Rheolwr Safle fod bae sy'n llawn '*aggregate*' am gael ei ddefnyddio i storio gwastraff concriid ar ôl gwaredu'r '*aggregate*'.
- 3.5 Roedd cynllun rheoli safle ar gyfer pob depo ac roedd mynediad gan y gweithwyr i'r rhain os oedd angen. Mae ffurflenni monitro gwastraff yng nghynlluniau rheoli safle pob depo i nodi dyddiad caiff gwastraff ei dderbyn gan y depo, ei bwysau a phryd bydd angen ei waredu. Roedd y ffurflen hon wedi ei llenwi yng nghynllun rheoli safle Cibyn ond nid yn y 4 depo arall. Roedd y wybodaeth i gyd ganddynt am bob trosglwyddiad gwastraff ar ffurfiau eraill megis '*job note*' a nodyn trosglwyddo gwastraff gan y cwmnïau dderbynïai'r gwastraff. Nid oedd ffurf y wybodaeth o bwys dim ond ei fod ar gael ar gyfer pob depo.
- 3.6 Crëwyd gan y Peiriannydd Cynorthwyol Sicrwydd Ansawdd Amgylcheddol nodyn trosglwyddo gwastraff safonol i gael ei ddefnyddio gan bob depo. Mae'r nodyn trosglwyddo gwastraff yn cynnwys blychau i'w ticio i osgoi'r defnydd o godau EWC anghywir. Roedd defnydd yn cael ei wneud o'r nodyn trosglwyddo gwastraff statudol yn ogystal â fersiynau'r cwmnïau gwaredu gwastraff o'r nodyn trosglwyddo gwastraff. O ganlyniad, roedd yn annhebygol iawn buasai gwastraff yn cael ei drosglwyddo o dan y cod EWC anghywir.
- 3.7 Derbyniwyd copi o'r cyflwyniad PowerPoint roddwyd gan y Peiriannydd Cynorthwyol Sicrwydd Ansawdd Amgylcheddol fel rhan o hyfforddiant staff yr Adran Priffyrdd. Mynegodd bod y cyflwyniad yn gynhwysfawr ac yn egluro am drwyddedau, sut i storio gwastraff a phwysigrwydd defnyddio nodyn trosglwyddo gwastraff. Gwelwyd bod cofrestr gyflawn o staff yr adran oedd wedi mynychu wedi'i arwyddo gan y mynychwyr.

#### **4. Barn yr Archwiliad**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb yn nhrefniadau Rheoli Depos Priffyrdd, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Rheolwr Safle wedi ymrwymo i weithredu'r cam canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Gwaredu '*aggregate*' yn nepo Ffordd y Bala, Dolgellau er mwyn defnyddio'r bae i storio gwastraff concriid yn unig.
- Ystyried gwneud cais am drwydded S2 os bydd angen defnyddio gwastraff megis '*Road Planings*' fel deunydd, wedi 3 mis o'u storio yn y Depo.

## **RHESTR AROS TAI OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

### **1. Cefndir**

1.1 Mae Partneriaeth Gosod Tai Cyffredin Gwynedd wedi eu sefydlu er mwyn datblygu cofrestr tai cyffredin sy'n darparu un man i gael mynediad at dai cymdeithasol yng Ngwynedd. Y bwriad yw gweithredu system sydd yn hawdd i'w ddeall ac yn rhoi dewisiadau i ymgeiswyr o'r opsiynau sydd ar gael. Mae Polisi Gosod Tai Cyffredin wedi ei lunio ac yn blaenoriaethu ymgeiswyr ar sail pwyntiau a chategorïau sy'n blaenoriaethu ymgeiswyr â'r angen fwyaf. Mae'r Cymdeithasau Tai yn derbyn rhestr fer gan Wynedd yn seiliedig ar y pwyntiau yma ac yn dyrannu llety i'r teuluoedd sydd a'r sgôr uchaf ar gyfer y math o eiddo sydd ar gael ar gyfer y lleoliad o'u dewis.

### **2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad**

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod Rhestr Aros Tai Gwynedd yn cael ei weinyddu yn briodol mewn ffordd sy'n blaenoriaethu ymgeiswyr yn deg a thryloyw, a bod y gofrestr yn cael ei chadw yn gyfredol a chywir. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio'r Rhestr Aros Tai a'r trefniadau sydd mewn lle er mwyn ei chadw'n gyfredol ac yn rhydd o dwyll, yn ogystal â gwirio sut caiff sampl o ymgeiswyr eu blaenoriaethu.

### **3. Prif Ddarganfyddiadau**

3.1 Mae'r Polisi Gosod Tai Cyffredin yn ceisio sicrhau proses tryloyw a theg sydd yn blaenoriaethu ymgeiswyr yn ôl yr angen. Er bod cyfiawnhad dros benderfyniadau o bwy sy'n derbyn cynigion llety, mae nifer fawr o ffactorau all effeithio pwy gaiff eu hystyried ar restrau fer, ac nid yn unig y nifer o bwyntiau ar eu cais. Gall hyn ymddangos yn rhwystredig i ymgeiswyr a gwneud hi'n anodd i staff Gwynedd egluro a chyfiawnhau pwy mae'r cymdeithasau wedi dewis eu cartrefu.

3.2 Mae'r Tîm Opsiynau Tai yn trafod gyda chwmni Capita ar hyn o bryd er mwyn symud i system newydd, gyda'r bwriad o ddisodli system bresennol 'Academy Housing' a mabwysiadu 'Open Housing'. Bydd Cynghorau Gwynedd a Woking yn treialu'r system newydd. Y goblygiadau mwyaf o ddefnyddio'r system newydd fydd y defnydd o ffurflenni cais ar lein yn hytrach na'r system bapur bresennol. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r gwaith mewnbynnu i'r tîm, a chaniatáu mwy o amser i wirio ac asesu ceisiadau. Y pryder mwyaf yw'r effaith y caiff hyn ar yr henoed ac ymgeiswyr sydd ddim a mynediad/gallu i ddefnyddio system ar lein.

3.3 Mae angen prawf o hunaniaeth ar gyfer derbyn ceisiadau newydd gan ymgeiswyr a gwelwyd o sampl a ddetholwyd fod Gwynedd yn cysylltu ag ymgeiswyr os nad oes tystiolaeth dderbyniol wedi ei dderbyn. Os nad yw'r wybodaeth yn cael ei dderbyn gwelwyd nad oedd y ceisiadau yn cael eu hasesu er mwyn cynnwys yr ymgeisydd ar y rhestr aros.

- 3.4 Gwelwyd fod pwyntiau yn cael eu hychwanegu ar gais pob ymgeisydd ar gyfer unrhyw elfen maent yn gymwys amdano. Mae'r Tîm Opsiynau Tai yn derbyn tystiolaeth er mwyn cefnogi hyn. Nid yw'r tai o angenrheidrwydd yn cael eu dyrannu i'r ymgeisydd gyda'r sgôr uchaf. Mae'r Polisi yn nodi unrhyw eithriadau, a gwelwyd nifer o enghreifftiau lle'r oedd rhestrau fer yn cael eu creu ar gyfer eiddo penodol. Gwelwyd fod Swyddogion yn gwirio amgylchiadau'r ymgeiswyr a'u pwysu a mesur yn erbyn math, maint a lleoliad yr eiddo gan roi ystyriaeth i unrhyw ddewisiadau/dymuniadau gan y Gymdeithas Tai sydd yn cynnig y denantiaeth.
- 3.5 Mae nifer uchel o geisiadau yn cael eu derbyn gan y Tîm Opsiynau Tai a thybiwyd fod 750 rhestr fer yn cael eu creu yn flynyddol. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Opsiynau Tai ei fod yn gwirio pob un ohonynt yn y gorffennol ond roedd hyn yn arafu'r broses. Erbyn hyn mae sampl o'r rhestrau yn cael ei wirio ganddo ond mae cyfarfodydd a sgysiau aml gydag aelodau'r tîm os oes angen trafod rhestrau penodol.
- 3.6 Mae'r Polisi cyfredol yn nodi fod Gwynedd yn anelu i adolygu pob cais i fod ar y rhestr o fewn 6 mis. Mae'r nifer o geisiadau a dderbynnir yn golygu fod hi'n anodd gwireddu'r targed yma. Gwelwyd nifer o enghreifftiau lle'r oedd adolygiadau wedi ei gwneud, a cheisiadau yn cael eu canslo lle na dderbyniwyd gwybodaeth. Eglurodd yr Arweinydd Tîm Opsiynau Tai fod Polisi newydd ar y gweill ym mis Rhagfyr fydd yn adlewyrchu eu bod am anelu i adolygu ceisiadau o fewn 12 mis. Mae pob cyfathrebiad gyda'r ymgeiswyr yn cael ei gofnodi ar y system Capita.
- 3.7 Nid oes trefn benodol yn bodoli er mwyn i'r tîm dderbyn gwybodaeth am newid mewn amgylchiadau ymgeiswyr e.e. marwolaethau. Mae'r Swyddog Cofrestru yn darparu manylion marwolaethau a gofrestrwyd yng Ngwynedd i 'Tell Us Once' ac i restr o swyddi/unigolion o fewn y Cyngor. Mae'r rhestr yma yn cael ei wirio gan y Swyddfa Gartref/'General Register Office' ac nid yw'n cynnwys aelod o'r Tîm Opsiynau Tai. Nid oes trefn yn bodoli i'r unigolion yma rannu'r wybodaeth rhwng adrannau a gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor. Yn ystod gweithgaredd i'r Fenter Twyll Cenedlaethol, cymharwyd gwybodaeth gan yr Adran Waith a Phensiynau (DWP) gyda'r rhestr aros a gwelwyd un enghraifft lle'r oedd unigolyn yn parhau i fod ar y rhestr am rhai misoedd yn dilyn ei farwolaeth.

#### **4. Barn yr Archwiliad**

**(B) Gellir datgan sicrwydd rhannol o briodoldeb wrth weinyddu'r Rhestr Aros Tai gan fod rheolaethau mewn lle, ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau. Mae'r Tîm Opsiynau Tai wedi ymrwymo i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- Monitro esblygiad y system newydd i sicrhau fod trefn effeithiol er mwyn cyfeirio unigolion megis yr henoed a'r bregus er mwyn derbyn cymorth a chefnogaeth i gwblhau cais ar lein.
- Gwneud ymholiadau i ddarganfod os oes modd cael trefn effeithiol i dderbyn gwybodaeth ddefnyddiol ynglŷn ag unigolion sydd yn marw er mwyn dileu eu ceisiadau.